



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd:	Darlithydd Darlunio a Thecstilau
Ysgol:	Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd
Lleoliad:	Campws Llandaf
Gradd:	7AB
Cyflog:	£44,263 - £49,791 y flwyddyn pro rata
Oriau:	14.8 awr yr wythnos
Daliadaeth:	Tymor penodol tan 31 Ionawr 2025

Crynodeb o'r Rôl:

Bydd gofyn i ddeiliad y swydd ddysgu ar draws Dylunio Tecstilau a Darlunio ar lefelau israddedig ac ôl-raddedig, yn ogystal â chyfrannu at fodiwla ar bob lefel fel rhan o gwricwlwm unigryw Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd.

Bydd deiliad y swydd yn cyfrannu at brosiectau rhyngddisgyblaethol cydweithredol mewn ymchwil ac arloesi (sy'n cynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd) ac addysgu. Byddant hefyd yn cyfrannu at ddiwylliant addysgu ac ymchwil bywiog trwy wreiddio eu harbenigedd yn y cwricwlwm, ymgysylltu â chydweithwyr, a datblygu allbynnau ymchwil neu effaith sy'n berthnasol i'w hymchwil.



PROFFIL Y RÔL

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Cymorth addysgu a dysgu

- Goruchwylio myfyrwyr israddedig, ôl-raddedig ac ymchwil.
- Dylunio deunydd addysgu a'i gyflwyno naill ai ar draws ystod o fodiwlau neu o fewn maes pwnc.
- Dylunio a chynnal cynnwys ac amgylcheddau dysgu rhithiol
- Defnyddio dulliau addysgu, cymorth dysgu ac asesu priodol.
- Goruchwylio prosiectau myfyrwyr, a/neu e.e. teithiau maes a, lle bo hynny'n briodol, lleoliadau.
- Nodi meysydd lle mae angen adolygu neu wella'r ddarpariaeth gyfredol.
- Cyfrannu at gynllunio, dylunio a datblygu amcanion a deunydd.
- Gosod, marcio ac asesu gwaith ac arholiadau a rhoi adborth i fyfyrwyr.

Ymchwil ac ysgolheictod

- Arwain cynigion a phrosiectau ymchwil a/neu arloesi sydd â'r potensial i gynhyrchu incwm, rheoli cyflawniadau prosiectau, cyflawni allbynnau a sicrhau effaith.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid prifysgol i nodi ffynonellau cyllid ymchwil ac arwain y broses o sicrhau arian.
- Rheoli cyflwyno prosiectau ymchwil unigol a / neu gydweithredol yn ôl amser ac o fewn y gyllideb.
- Cymhwyso gwybodaeth a gafwyd o ymchwil ac arloesi ynghyd ag ysgolheictod i ddysgu ac addysgu, a gweithgareddau allanol priodol
- Arwain y gwaith o ddylunio a chynhyrchu cyhoeddiadau a/neu allbynnau ymarferwyr a adolygir gan gymheiriaid, a/neu ledaenu canfyddiadau ymchwil gan ddefnyddio cyfryngau priodol eraill.
- Gwneud cyflwyniadau mewn cynadleddau academaidd a/neu ymarferwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol neu arddangos gwaith mewn digwyddiadau priodol eraill.

Cyfathrebu

- Cyfleu syniadau cymhleth a chysyniadol yn rheolaidd.

Cyswllt a rhwydweithio

- Cymryd rhan mewn rhwydweithiau mewnol ac allanol a'u helpu i ddatblygu er budd Prifysgol Metropolitan Caerdydd ym meysydd addysgu ac ymchwil.

Rheoli pobl

- Mentora cydweithwyr sydd â llai o brofiad a chyngor ar ddatblygiad personol.
- Yn dibynnu ar y maes gwaith, gellid disgwyl iddynt oruchwylio gwaith pobl eraill.

Gwaith tîm

- Gweithredu fel aelod cyfrifol o'r tîm, gan arwain lle cytunir, a datblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol gydag aelodau eraill o staff.
- Cydweithio â chydweithwyr i nodi ac ymateb i anghenion myfyrwyr.

Gofal bugeiliol

- Gellid disgwyl iddo weithredu fel tiwtor modiwl.
- Bod yn gyfrifol am ofal bugeiliol myfyrwyr mewn ardal benodol.
- Delio â phroblemau safonol a helpu cydweithwyr i ddatrys eu pryderon ynghylch cynnydd mewn ymchwil.

Menter, datrys problemau a gwneud penderfyniadau

- Asesu, dehongli a gwerthuso canlyniadau ymchwil.
- Nodi'r angen i ddatblygu cynnwys neu strwythur modiwlau gyda chydweithwyr a gwneud cynigion ar sut y dylid cyflawni hyn.
- Datblygu syniadau sy'n hyrwyddo'r pwnc a/neu feysydd ymchwil.
 - e.e. Datblygu syniadau a dod o hyd i ffyrdd o ledaenu a chymhwyso'r canlyniadau ymchwil ac ysgolheictod
 - e.e. Cyfrifoldeb am ddylunio a darparu modiwlau a dulliau asesu eich hun.
 - e.e. Cydweithio â chydweithwyr ar weithredu dulliau asesu.
 - e.e. Cynghori eraill ar faterion strategol fel recriwtio myfyrwyr marchnata.
 - e.e. Cyfrannu at achredu cyrsiau a phrosesau rheoli ansawdd.

Cynllunio a rheoli adnoddau

- Fel arweinydd modiwlau neu diwtor, cydlynu ag eraill (fel staff cymorth neu gydweithwyr academiaidd) i sicrhau bod anghenion a disgwyliadau myfyrwyr yn cael eu diwallu.
- Rheoli prosiectau sy'n ymwneud â'ch maes gwaith eich hun.
- Cymryd rhan mewn datblygu syniadau ar gyfer cynhyrchu incwm.

Gofynion synhwraidd, corfforol ac emosiynol.

- Cydbwysu pwysau addysgu a gofynion gweinyddol a therfynau amser sy'n cystadlu.

Amgylchedd gwaith

- Yng nghyd-destun polisi Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd, yn dibynnu ar faes gwaith a lefel yr hyfforddiant a dderbynnir, gellir disgwyl iddynt gynnal asesiad risg a chymryd cyfrifoldeb am iechyd a diogelwch eraill.

Arbenigedd

- Meddu ar ddigon o ehangder neu ddyfnder o wybodaeth arbenigol yn y ddisgyblaeth i ddatblygu rhaglenni addysgu a/neu ymchwil a darparu cymorth dysgu.
- Defnyddio ystod o dechnegau cyflwyno.

Hysbysiad Safonol

Darperir y canllawiau hyn i'ch helpu i gyflawni eich contract. Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig; felly, efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd. Ni fwriedir i'r Crynodeb o Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau fod yn rhestr gynhwysfawr o'r tasgau a gyflawnir. Mae tasgau technegol cysylltiedig eraill yn debygol o gael eu cyflawni yn unol â chyfarwyddyd y rheolwr llinell.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad a'u hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob cyflogai ddangos ei fod yn glynu wrth ein Cod Ymddygiad Proffesiynol. Dylai'r holl staff roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisiâu a gweithdrefnau Cydraddoldeb, Ariannol, Amgylcheddol a Chynaliadwyedd, Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd.



MANYLEB PERSON

Teitl y Swydd: Darlithydd Darlunio a Thecstilau

Ysgol/Uned: Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd

***Allwedd**

Ff - Ffurflen gais
C - Cyfweiliad
P - Prawf

FFACTORAU	MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL	ASESWYD GAN		
		Ff*	C *	P*
Addysg a Chymwysterau (Hanfodol)	Gradd anrhydedd da mewn pwnc perthnasol.	✓		
	Y gallu i gyflawni Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch, o fewn cyfnod o dair blynedd (dim ond yn berthnasol os penodir i swydd barhaol).	✓	✓	
Addysg a Chymwysterau (Dymunol)	Statws Cymrawd fel rhan o gynllun cydnabyddiaeth broffesiynol yr Academi Addysg Uwch.	✓		
	Aelodaeth o gorff proffesiynol.	✓		
	Cymhwyster lefel doethur wedi'i ennill neu hanes o allbynnau ymchwil o bwys cenedlaethol neu ryngwladol a gyhoeddwyd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf a allai lunio PhD trwy gyhoeddiad.	✓		
Gwybodaeth (Hanfodol)	Lefel dda o wybodaeth sy'n berthnasol i'r pwnc a'r maes proffesiynol.	✓	✓	
	Tystiolaeth o ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).	✓		
	Dealltwriaeth gadarn o addysgeg.		✓	
	Dealltwriaeth gadarn o ymchwil/arloesi a gweithgaredd ysgolheigaidd.	✓	✓	
	Gwybodaeth gadarn am arferion a phrosesau dylunio arwynebau cyfoes mewn perthynas ag ystod o gyd-destunau tecstilau a darlunio.	✓	✓	✓
	Dealltwriaeth gadarn o gymwysiadau dylunio patrymau arwyneb mewn cyd-destunau masnachol.	✓	✓	✓
	Gwybodaeth gadarn o arferion lluniadu cyfoes.	✓	✓	

Gwybodaeth (Dymunol)	Gwybodaeth am brosesau argraffu, dylunio digidol a/neu brosesau saernïo digidol mewn perthynas ag arferion dylunio tecstilau a darlunio.	✓	✓	
Sgiliau a Galluoedd sy'n Ymwneud â'r Rôl (Hanfodol)	Y gallu i ddatblygu rhaglenni addysgu a/neu ymchwil a darparu cymorth dysgu.	✓	✓	✓
	Y gallu i ddylunio deunydd addysgu a dysgu.	✓		
	Y gallu i ddefnyddio dulliau asesu priodol.	✓	✓	✓
	Y gallu i gefnogi datblygiad amcanion, prosiectau neu gynigion ymchwil.	✓	✓	
	Y gallu i ddefnyddio dulliau priodol ar gyfer lledaenu canfyddiadau ymchwil.	✓		
	Y gallu i gyfrannu at gyflawni'r Cynllun Datblygu Ysgol a datblygu gweithgareddau ysgol eraill.		✓	
	Y gallu i gyflawni dyletswyddau gweinyddol mewn modd cywir ac amserol.		✓	
	Y gallu i gynllunio llwythi gwaith a phrosiectau a rheoli adnoddau'n effeithiol.	✓	✓	
	Y gallu i nodi meysydd i'w gwella a defnyddio sgiliau menter a datrys problemau i wella perfformiad.		✓	✓
	Y gallu i gymryd cyfrifoldeb am nifer o feysydd allweddol fel tiwtor modiwl, goruchwyliaeth ymchwil ar lefel israddedig.		✓	
	Y gallu i gyfathrebu a lledaenu syniadau cymhleth a chysyniadol mewn amryw o ffyrdd - cyflwyniadau mewn cynadleddau, adroddiadau ar ganfyddiadau, cyhoeddiadau, adborth ac ati.		✓	✓
	Y gallu i ddatblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol fel rhan o dîm proffesiynol.		✓	
	Y gallu i weithio ar y cyd ar brosiectau ymchwil trwy ddatblygu partneriaethau priodol.		✓	
	Y gallu i ddatblygu cynnwys dysgu rhithwir digidol.	✓	✓	
	Y gallu i gynorthwyo myfyrwyr i broffesiynoli a masnacheiddio eu gwaith.		✓	
			✓	

	Y gallu i weithio gyda phartneriaid allanol yn y diwydiant er mwyn datblygu'r cwrwclwm			
Sgiliau a Galluoedd sy'n Ymwneud â'r Rôl (Dymunol)	Yn gallu cymryd rhan mewn mentrau trawsddisgyblaethol mewn addysgu ac ymchwil. Yn gallu cychwyn a datblygu mentrau newydd ym maes addysgu, ymchwil ac arloesi.		✓	
Profiad â Thâl/ Di-dâl (Hanfodol)	Profiad o addysgu neu gyfwerth. Profiad o ymchwil neu gyfwerth er enghraifft, profiad o ymchwil neu weithgareddau eraill sy'n arwain at greu/cymhwyso a lledaenu gwybodaeth neu weithgareddau newydd. Profiad o ddenu neu gynhyrchu arian / incwm trwy amrywiaeth o ffynonellau. Profiad o weithio gydag eraill mewn rôl oruchwylio/arwain/cefnogi/mentora.	✓ ✓ ✓ ✓		✓ ✓ ✓
Profiad â Thâl/ Di-dâl (Dymunol)	Profiad o addysgu ac ymchwil mewn Addysg Uwch. Profiad o fewn y diwydiannau dylunio tecstilau neu ddarlunio. Rhwydwaith amlwg o fewn y diwydiant.	✓ ✓ ✓		✓ ✓
Gofynion eraill (Hanfodol)	Y gallu i ddangos ymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, Iechyd a Diogelwch, Safonau Ansawdd.			✓
Gofynion eraill (Dymunol)				
Sgiliau Cymraeg Gwranddo (Dymunol) I gael y disgrifiadau llawn o sgiliau, ewch i'n gwefan recriwtio staff.	<u>Gwranddo</u> C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.	✓		✓
Sgiliau Cymraeg Darllen	<u>Darllen</u>	✓		✓

(Dymunol)	C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.			
Sgiliau Cymraeg Siarad (Dymunol)	<u>Siarad</u> C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.	✓	✓	
Sgiliau Cymraeg Ysgrifennu (Dymunol)	<u>Ysgrifennu</u> C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg	✓	✓	